

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Tachwedd 5ed, 2015 yn Festri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; William Ifor Hughes; Gwilym M Thomas; John Williams; Aled Lloyd Evans; Elis Gwyn Jones; Alwen Evans; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cynghorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Margaret Griffith.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Hydref 1af, 2015 ac er gwybodaeth y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Hydref 22ain, 2015. Sylwer ar un cofnod yn arbennig sef- gofynnwyd i'r Clerc roi eitem ar raglen waith Cyngor mis Tachwedd yn gofyn i Gynghorwyr ydynt yn ymwybodol o unrhyw waith sydd angen ei wneud gan y Cyngor yma yn eu wardiau.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol. Y Cynghorwyr Marian Evans, Elis Gwyn Jones, Anwen Jones, John Williams ac Alwen Evans yn datgan diddordeb yn rhif 8, Llanystumdwy rhif 2, Mynwent Newydd Llanystumdwy; maent yn aelodau o bwyllgor y fynwent. Y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn datgan diddordeb yn rhif 8 Llangybi rhif 2, dŵr yn cronni ger mynedfa Tyddyn Llan pan mae'n bwrw; mae'n byw yn Nhyddyn Llan. Y Cynghorydd Anwen Jones yn datgan diddordeb yn rhif 5 Cyngor Gwynedd rhif 5, y gordyfiant ar y ffordd o Bont Bryn Beddau a heibio Betws Bach; mae'n berchen ar Betws Bach. Y Cynghorydd Trefor W Jones yn datgan diddordeb yn rhif 18, cais am nawdd ariannol gan Aelwyd Chwilog, mae aelodau o'i deulu yn ymwneud â'r Aelwyd.
5. Cyngor Gwynedd.

1. Oedolion, Iechyd a Llesiant; Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2015. Penderfynwyd ateb yr holiadur yn dweud nad oedd yr un o'r Cynghorwyr yn gwybod am neb sy'n cysgu ar y stryd yn y gymuned hon.

2. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; Llwybr Garn Bentyrch, Llangybi. Dal i wneud ymholiadau mae'r swyddog ynghylch perchnogaeth y winllan mae'r llwybr swyddogol yn mynd drwyddi. Penderfynwyd aros nes ceir gwybodaeth gan y swyddog o'r Cyngor Sir.

3. Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol; gwasanaeth Arriva rhif 3 rhwng Pwllheli a Phorthmadog a gwasanaeth Express Motors drwy Rhoslan am Borthmadog. Mae'r swyddog yn ceisio trefnu cyfarfod gyda chwmmi Arriva a phenderfynwyd aros am yr ymateb. Mae gohebiaeth oddi wrth gwmmi Express Motors ar raglen waith cyfarfod heno, rhif 8 Rhoslan 2.

4. Swyddog Cofrestru, Cyngor Cymuned Llanystumdwy, Sedd Wag – Ward Llanystumdwy, cyfethol aelod newydd. Ni chafwyd ymateb i'r hysbysiad ar yr hysbysfwrdd o flaen Neuadd Llanystumdwy ac ar safle we'r Cyngor. Penderfynwyd cysylltu gyda Mrs Sian Angharad Parry, Fferm Trefan, Llanystumdwy i ofyn iddi fyddai hi'n dymuno cael ei chyfethol yn aelod o Gyngor Cymuned Llanystumdwy, yn cynrychioli Ward Llanystumdwy.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned; Rhoslan, sylwadau ar y gordyfiant ar y ffordd o Bont Bryn Beddau a heibio Betws Bach a Llangybi, barbio ac atgyweirio arwyddion 30 m.y.a. Y Cynghorydd Anwen Jones ddim yn cymeryd rhan yn y drafodeth. Mae Swyddog

Gorfodaeth ffyrdd yr ardal wedi cael ei hysbysu ynghylch y gordyfiant rhwng Pont Bryn Beddau a Betws Bach a chaiff yr arwyddion 30 m.y.a. yn Llangybi eu hatgyweirio pan fydd adnoddau'r Cyngor Sir yn caniatáu. Penderfynwyd derbyn.

6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Biniau Halen. Daeth gohebiaeth yn dweud na fydd Cyngor Gwynedd yn llenwi, ailgyflenwi a chynnal a chadw'r biniau halen o Ebrill 1af, 2016 ymlaen. Penderfynwyd derbyn yr egwyddor y bydd y Cyngor Cymuned yn talu i Gyngor Gwynedd am y gwasanaeth ond gofynnwyd am sicrhad mai Cyngor Gwynedd fyddai'n gyfrifol pe bai unrhyw ddamwain neu anffawd yn digwydd o ganlyniad i'r biniau neu'r halen. Pum bin halen sydd yn y gymuned, nid yw'r bin ger Pont Ffynnon Gadfa, Bwlch Ffordd i Ty Newydd yn y gymuned hon.

6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:

Cais rhif C15/1082/41/LL – Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Ty'n y Coed Uchaf, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

7. Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn ar wasanaethau iechyd yng Nghymru.

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

8. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Llanarmon

Llanystumdwy

1. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod sbwriel wedi ei daflu gyferbyn â chyffordd Tyddyn Sianel. Penderfynwyd cysylltu gyda Galw Gwynedd i ofyn iddynt glirio'r sbwriel.

2. Mynwent Newydd Llanystumdwy; gair gan y Cynghorydd Marian Evans. Roedd cais i roi manylion cysylltu'r fynwent ar safle we'r Cyngor. Ni chymerodd y Cynghorwyr John Willims, Anwen Jones, Marian Evans, Alwen Evans ag Elis Gwyn Jones ran yn y drafodaeth. Penderfynwyd caniatáu'r cais.

Rhoslan

1. Y ciosg. Erbyn hyn mae'r ciosg yn gweithio. Derbyniwyd.

2. Llythyr oddi wrth Express Motors ynghylch y gwasanaeth bws. Derbyniwyd yr ateb y gallai'r gwasanaeth bws 09:40 Caernarfon- Porthmadog via Cricieth fod yn hwyr os oes problemau gyda'r traffig ym Mhontnewydd neu o gwmpas Ysbyty Gwynedd. Does dim esgus os ydi'r bws yn rhy gynnar a dwed y cwmni y cedwir golwg ar y sefyllfa. Derbyniwyd. Roedd cwyn arall gan deithiwr bod y bws 12pm o Borthmadog drwy Gricieth am Rhoslan am 12:15 heb aros i godi teithiwr ger Pont Rhydybenllig, ddydd Iau, Hydref 29ain. Penderfynwyd anfon cwyn drwy lythyr.

Llangybi

1. Cwynion am gyflymder rhai tractorau trwy bentref Llangybi a diffyg ystyriaeth i gerddwyr ar ffyrdd cul. Penderfynwyd rhoi'r wybodeth yn Y Ffynnon.

2. Dŵr yn cronni ger mynedfa Tyddyn Llan pan mae'n bwrw. Ni chymerodd y Cynghorydd Thomas Prys Jones ran yn y drafodaeth. Penderfynwyd cysylltu gyda'r swyddog yn uniongyrchol i geisio cael y maen i'r wal gyda'r broblem yma.

9. Ymateb Cyngor Cymuned Llannor i'r problemau gyda'r gwasanaeth ffôn yn ardal Y Ffôr dro yn ôl. Derbyniwyd bod Cyngor Cymuned Llannor wedi trafod y wybodaeth anfonwyd atynt gan y Cyngor yma, bod rhai trigolion wedi bod heb ddefnydd o'r ffôn yn ystod y cyfnod dan sylw.

10. Ymateb BT i'r gwyn am y gwasanaeth Bandeang yn yr ardal. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth y bydd y rhaglen dod â bandllydan ffibr i'r ardaloedd nad ydynt yn fasnachol yn cael ei gwblhau erbyn canol 2017. Bydd y gwaith yn ardal cyfnewidfa Chwilog yn mynd ymlaen rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016.

11. Llythyr o Swyddfa Dafydd Elis-Thomas AC ynghylch Gwrthwynebiadau i Geisiadau Cynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd Dafydd Elis-Thomas yn cynnig cyfarfod cynrychiolaeth o'r Cyngor ar ddydd Gwener, un ai yn ei swyddfa ym Mhorthmdog neu yn ardal cymuned Llanystumdwy. Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Tref Cricieth i geisio trefnu cyfarfod ar y cyd, gan mai Cyngor Tref Cricieth oedd wedi tynnu sylw at y broblem yn y lle cyntaf.

12. Archwiliad Blynyddol Cae Chwarae Llanybi; wedi anfon yr adroddiad yma ymlaen at y Cynghorwyr sydd ar e bost. Doedd dim rhaid cymeryd unrhyw gamau y tro yma a phenderfynwyd derbyn.

13. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd yn gwrthwynebu unrhyw doriadau arfaethedig i'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad.

14. Ar gais y Cadeirydd, Ciosgs; wedi anfon y linc atoch yn barod. Penderfynwyd trafod y cynllun mabwysiadu ciosg os bydd ciosg yn y gymuned yn cael ei symud.

15. Swyddfa Archwilio Cymru, Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynyddol 2015-6, 2016-7, 2017-18. Derbyniwyd yr ateb bod y cwmni newydd, BDO LLP wedi sgorio uchaf yn y gwerthusiad o'r tendrau i gyd yn unol â Chyfarwyddiadau a Rheoliadau Caffael yr UE, gan ystyried amryw o feini prawf.

Y Cyngor yn gaeddig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.